# Blaenoriaethau'r bobl: Senedd 2026

## Llythyr gan ein Cadeirydd,

## Yr Athro Medwin Hughes



Rwy'n ysgrifennu i rannu maniffesto Llais ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru, a gyhoeddwyd heddiw yn dilyn ymgysylltu helaeth â phobl ledled Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel y corff statudol annibynnol sy'n cynrychioli pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan wneuthurwyr penderfyniadau, yn enwedig ar adegau o drawsnewid, pan fydd blaenoriaethau tymor nesaf y Senedd yn cael eu hystyried.

Rydym wedi gwrando ar ddegau o filoedd o bobl ym mhob rhanbarth o Gymru. Mewn neuaddau cymunedol, meddygfeydd teulu, cartrefi gofal, strydoedd mawr, ac ar-lein, mae pobl wedi rhannu eu profiadau, eu rhwystredigaethau, a'u gobeithion am newid.

Roedd yr hyn a glywsom yn glir: mae pobl wedi blino ar aros, wedi blino ar wasanaethau nad ydynt yn siarad â'i gilydd, ac wedi blino ar addewidion nad ydynt yn trosi'n welliant pendant yn eu bywydau beunyddiol. Maent yn cydnabod ymroddiad staff rheng flaen ac yn deall pwysau cyllidebol, ond maent hefyd yn gwybod bod newid strwythurol yn angenrheidiol ac yn bosibl.

Mae'r maniffesto hwn yn nodi deuddeg diwygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'u grwpio o dan bedair thema: ecwiti a mynediad, atal ac ymyrraeth gynnar, gofal person-ganolog, ac integreiddio gwasanaethau. Nid syniadau polisi haniaethol yw'r rhain. Newidiadau ymarferol a chyraeddadwy y dywedodd pobl wrthym y byddent yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w profiad o iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae rhai angen deddfwriaeth. Mae rhai angen buddsoddiad. Mae angen arweinyddiaeth ac ymrwymiad parhaus ar bob un.

Mae'r argymhellion allweddol yn cynnwys:

- Hawl statudol i ofal seibiant i ofalwyr di-dâl; mae angen seibiannau gwarantedig a chymorth brys ar 310,000 o ofalwyr di-dâl Cymru, wedi'u cefnogi gan y gyfraith
- Ymestyn eiriolaeth Llais i bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal cymdeithasol; sicrhau y gall y rhai mwyaf agored i niwed godi pryderon gyda ni yn ogystal â'r darparwyr statudol eraill.
- Gwneud sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig i chi' yn orfodol ym mhob cynllun gofal y GIG; rhoi pobl wrth wraidd penderfyniadau am eu gofal eu hunain
- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn cymunedau â'r canlyniadau iechyd gwaethaf; mynd i'r afael â'r realiti bod pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn treulio 20 mlynedd yn llai mewn iechyd da
- Trwsio ymyl y clogwyn i bobl ifanc sy'n symud i wasanaethau oedolion; gwarantu parhad gofal pan fydd pobl ifanc yn troi'n 18 oed
- Un broses gwyno person-ganolog ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol; gan ei gwneud hi'n haws i bobl godi pryderon pan fydd gofal yn croesi ffiniau

Mae'r deuddeg argymhelliad llawn wedi'u nodi yn y maniffesto sydd ynghlwm.

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn rhwystredig oherwydd arosiadau hir am apwyntiadau meddyg teulu a llawdriniaethau, adrannau brys dan bwysau mawr, ac oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Rydym yn gwybod bod gwaith parhaus ar y gweill ar y pwysau acíwt hyn. Mae'r maniffesto hwn yn canolbwyntio ar y newidiadau sylfaenol i'r system a fyddai'n atal problemau rhag gwaethygu yn y lle cyntaf, ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n well i bawb yn y tymor hir.

Nid yw'r diwygiadau hyn yn bleidiol. Maent yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymarferol, ac wedi'u gwreiddio yn yr hyn y mae pobl ledled Cymru wedi dweud wrthym sydd ei angen arnynt. Bydd cyfle gwirioneddol gan bwy bynnag sy'n ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru i ymateb i'r blaenoriaethau hyn.

Wrth i ni symud tuag at etholiad Senedd 2026, yn unol â'n rôl statudol, bydd Llais yn ymgysylltu'n agored ac yn gyfartal â phob plaid wleidyddol i drafod sut y gellir bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn.

Byddem yn croesawu’r cyfle i’w trafod gyda chi ac i ddeall sut mae eich maniffesto yn adlewyrchu’r lleisiau rydyn ni wedi’u clywed.

Bydd pobl ledled Cymru yn chwilio am arweinyddiaeth sy'n gwrando ac yn ymateb i'r hyn sydd bwysicaf yn eu bywydau beunyddiol.

Yn gywir iawn,



Yr Athro Medwin Hughes
Cadeirydd, Llais